# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 20 Ionawr 2022

Amser: 09.30 - 12.08

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/12703

# O bell

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Jayne Bryant AS (Cadeirydd)<br>James Evans AS<br>Laura Anne Jones AS<br>Ken Skates AS<br>Buffy Williams AS<br>Sioned Williams AS |
| Tystion: | Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg<br>Owain Lloyd, Llywodraeth Cymru<br>Huw Morris, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Naomi Stocks (Clerc)<br>Tom Lewis-White (Ail Glerc)<br>Sarah Bartlett (Dirprwy Glerc)<br>Catherine McKeag (Swyddog)<br>Michael Dauncey (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

1.2 Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, dywedodd y Cadeirydd ei bod wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn amddiffyn iechyd y cyhoedd, ond bod y cyfarfod yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.tv.

1.3 Ni chafwyd ymddiheuriadau.

1.4 O dan Reol Sefydlog 17.24A, datganodd Sioned Williams AS fod ei gŵr yn cael ei gyflogi gan Brifysgol Abertawe.

## 2 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2022-23 - sesiwn dystiolaeth 2

3.1 Bu'r Pwyllgor yn craffu ar waith Gweinidog y Gymraeg ac Addysg mewn perthynas â chyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru.

2.2 Dywedodd y Gweinidog y byddai ei swyddogion yn gweithio ochr yn ochr â chlercod y Pwyllgor, pe bai angen, er mwyn nodi yn y dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd ganddo i'r Pwyllgor fanylion penodol am y cyllid a ddarperir ar gyfer codi safonau mewn ysgolion.

## 3 Papurau i'w nodi

3.1 Cafodd y papurau eu nodi.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol er mwyn rhannu unrhyw ymatebion a gafwyd i ymgynghoriad y Pwyllgor ar flaenoriaethau a fyddai'n berthnasol i ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i anghydraddoldebau iechyd meddwl.

### 3.1 Anghydraddoldebau iechyd meddwl

### 3.2 Blaenraglen waith

### 3.3 Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)

### 3.4 Craffu cyffredinol ar waith Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

### 3.5 Blaenraglen waith – Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

### 3.6 Cyllideb Llywodraeth Cymru 2022-23

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod ac ar gyfer y cyfarfod cyfan ar 27 Ionawr

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23 – trafod y dystiolaeth

5.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod y dystiolaeth a glywyd yn ystod y sesiwn flaenorol.

## 6 Aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymysg dysgwyr – trafod y dull gweithredu

6.1 Cytunodd y Pwyllgor ar ei ddull gweithredu o ran yr ymchwiliad, yn amodol ar gael rhai rhanddeiliaid ychwanegol ar gyfer cael tystiolaeth lafar a rhagor o wybodaeth am ddulliau eraill o ymgysylltu â phlant a phobl ifanc.

## 7 Trafod amserlen y Pwyllgor

7.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod amserlen y Pwyllgor. Bydd ymateb drafft yn cael ei drafod yng nghyfarfod yr wythnos nesaf.